Grŵp Buddiant yr Amgylchedd - 24 Chwefror, 2009
Pecyn Gwybodaeth Cymunedol

Lleoliad: Neuadd Gymunedol Sain Tathan, Rhodfa Glyndŵr, Sain Tathan, CF62 4PP

Dyddiad: Dydd Mawrth 24 Chwefror, 18.30-20.30

1. TROSOLWG

Roedd yr amgylchedd yn destun trafod poblogaidd adeg yr arddangosfa gyhoeddus a gynhaliwyd yng Ngorffennaf 2008 a chofnodwyd nifer o sylwadau a chwestiynau. Roedd y mwyafrif y sylwadau yn cyfeirio at:

- *Effeithiau posib yr ailddatblygiad ar fioamrywiaeth leol, bywyd gwyllt a'r dirwedd*
- *P'un ai fyddai cynnydd o ran sŵn a golau*
- *Y safleoedd tir glas lleol a allai ddiflannu*
- *Unrhyw berygl cynyddol o lifogydd sy'n gysylltiedig â'r datblygiad*

Bydd Grŵp Buddiant yr Amgylchedd yn ymdrechu i fynd i'r afael â'r pwyntiau uchod drwy esbonio'r hyn y mae'r tîm prosiect yn eu hystyried ar hyn o bryd a holi'r cyhoedd am eu barn a'u sylwadau. Yn ogystal â'r pwyntiau trafod, mae'r tîm prosiect yn awyddus iawn i glywed barn y cyhoedd ynghylch nifer o feysydd eraill. Maent yn cynnwys:

- *Y defnydd o ynni adnewyddadwy*
- *Creu cynefinoedd newydd i wneud iawn am y rheiny a fydd yn diflannu o ganlyniad y broses ailddatblygu*
- *Y cynllun teithio gwyrdd*

2. AMCANION

Gan ystyried yr uchod, gosodwyd yr amcanion a ganlyn ar gyfer y gweithdy:

- *Darparu trosolwg o'r ffordd yr ystyrir yr amgylchedd fel rhan o broses ailddatblygu Sain Tathan*
- *Darparu trosolwg o'r mesurau a gynigiwyd i sicrhau bod cynefinoedd pwysig yn cael eu diogelu/gwella, ac amddiffyn bywyd gwyllt*
- *Cofnodi sylwadau ynglŷn â chreu ynni ac ailgylchu, ac archwilio'r mentrau arfaethedig*
- *Ystyried y camau a gymerir i liniaru'r perygl o lifogydd*
- *Trafod unrhyw gynnydd tebygol o ran llygredd sŵn a golau, a'r camau a gymerir i leihau'r fath effaith*

3. FFORMAT AC AGENDA

Tra bydd yna elfen o hyblygrwydd yn strwythur y grŵp buddiant, gwerthfawrogir bod pobl yn rhoi o'u hamser i'w fynychu. Felly, bwriedir y bydd y grŵp buddiant yn dod i ben ar amser. Fodd bynnag, bydd yna gyfle i drafod unrhyw bwyntiau trafod pwysig a holi'r tîm ymgynghori y tu hwnt i'r sesiwn.

18.30 Cyrraedd a Chyflwyniad
Te, coffi a brechdanau wrth gyrraedd i'w ddilyn gan gyflwyniad a fydd yn nodi cwmpas y Grŵp Buddiant ac ailadrodd yr agenda a'r pwyntiau trafod allweddol.

18.50 Cyflwyniadau gan y Tîm Prosiect
Cyflwyniadau ar bynciau o ddiddordeb allweddol:

1. Archaeoleg, Tirweddu ac Asesiadau Amgylcheddol
- Glyn Diwell (Entec)

***2. Ecoleg** – Geraint Pitman (Capita)*

***3. Rheoli Dŵr Wyneb** - Dr Richard Breakspear (Entec)*

***4. Teithio Gwyrdd** - Alan Davies (Capita)*

***5. Strategaeth Ynni Adnewyddadwy** - Ian Matthews (Cundall)*

19.50 Sesiwn holi ac ateb ar ffurf trafodaeth grŵp

Mae mynychwyr yn rhydd i adael ar yr adeg hon. Bydd yna sesiwn holi ac ateb ar ffurf trafodaeth grŵp i'r rheiny sy'n dymuno aros. Bydd yna dri grŵp trafod, yn cynrychioli pynciau'r cyflwyniadau, a bydd cyfle i fynychwyr holi'r arbenigwyr ynglŷn â'r cyflwyniadau a welwyd.

Gwerthfawrogir na fydd pawb yn clywed yr holl atebion i'r holl gwestiynau, ond mi fydd pob cwestiwn ac ateb yn cael eu cofnodi ac fe fyddan nhw'n cael eu cynnig i fynychwyr ar ôl y digwyddiad.

20.30 Diweddglo

4. GWAITH DILYNOL

Bydd copïau o'r cyflwyniadau ar gael pan wneir cais a gellir eu hanfon at fynychwyr ar ôl y digwyddiad. Bydd cofnod o'r cwestiynau ac atebion o'r sesiwn holi ac ateb hefyd yn cael ei anfon at fynychwyr ar ôl y digwyddiad. Bydd hefyd cyfle i lawrlwytho'r holl ddogfennau o wefan y prosiect (www.st-athanconsultation.co.uk).

-mwy-

Grŵp Buddiant Lles Cymunedol – 4 Mawrth, 2009
Pecyn Gwybodaeth Cymunedol

Lleoliad: Clwb Golff RAF Sain Tathan, Heol Clive, Sain Tathan

Dyddiad: Dydd Mercher 4 Mawrth, 18.30-20.30

1. TROSOLWG

Bydd Grŵp buddiant lles cymunedol yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau a ddaeth i'r amlwg adeg yr arddangosfeydd cyhoeddus a gynhaliwyd yng Ngorffennaf 2008. Maent yn cynnwys cyflogaeth, tai, diogelwch, yr amgylchedd hyfforddi ac adeiladu. Cofnodwyd nifer fawr o sylwadau'n gysylltiedig â'r meysydd hyn yn ystod yr arddangosfeydd cyhoeddus. Yn eu plith, nifer a oedd yn cynnwys y meysydd a ganlyn:

- *Y cyfleoedd gwaith fydd ar gael yn y gymuned leol a'r modd o'u hybu i'r eithaf*
- *Ceisio eglurhad ynglŷn â lleoliad y tai newydd*
- *Effaith tai newydd ar y seilwaith lleol*
- *Sut bydd y boblogaeth filwrol a sifiliaid yn integreiddio*
- *Ffyrdd o liniaru effaith y cyfnod adeiladu*
- *Sut bydd sifiliaid yn cyrchu safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn*

Bydd y Grŵp Buddiant Lles Cymunedol yn ymdrechu i fynd i'r afael â'r pwyntiau uchod drwy esbonio'r hyn y mae'r tîm prosiect yn eu hystyried ar hyn o bryd a holi'r cyhoedd am eu barn a'u sylwadau. Yn ogystal â'r pwyntiau trafod, mae'r tîm prosiect yn awyddus iawn i glywed barn y cyhoedd ynghylch nifer o feysydd eraill. Maent yn cynnwys:

- *Ffyrdd y gall y tîm prosiect weithio gyda'r gymuned/busnesau lleol i'w galluogi i fanteisio'n llawn ar y cyfleodd gwaith/busnes sydd ar gael*
- *Trafod ffyrdd o sicrhau bod gan y boblogaeth filwrol effaith positif ar y gymuned leol*

2. AMCANION

Gan ystyried yr uchod, gosodwyd yr amcanion a ganlyn ar gyfer y gweithdy:

- Ystyried sut bydd y safle a'r gymuned ehangach yn rhyngweithio ar lefel ymarferol ee sut y bydd sifiliaid yn cyrchu'r safle a'r modd o reoli mynediad i gyfleusterau chwaraeon/hamdden
- Darparu trosolwg o'r ffordd y bydd yr academi/parc busnes yn cyfrannu at gyflogaeth yn yr ardal; ystyried yn fanylach y mathau o swyddi fydd yn cael eu creu a'r sgiliau cysylltiol fydd eu hangen; ystyried y cyfleoedd fydd ar gael i fusnesau lleol
- Ystyried nifer y tai newydd fydd ar gael yn sgil ailddatblygu Sain Tathan ac esbonio sut ystyrir/lleddfir effaith y cynnydd ar y lleoliad a'r boblogaeth
- Ystyried cwmpas/graddfa'r cyfnod adeiladu a manylu ar y camau a gymerir i leihau'r effaith ar y gymuned
- Ystyried materion diogelwch sy'n gysylltiedig â phroses ailddatblygu Sain Tathan a thawelu meddwl pobl ynglŷn ag unrhyw effeithiau y bydd ganddynt ar y gymuned amgylchynol
- Clywed barn a sylwadau'r cyhoedd ynglŷn â'u gobeithion a'u hofnau ynghylch effaith yr academi a'r parc busnes

3. FFORMAT AC AGENDA

Tra bydd yna elfen o hyblygrwydd yn strwythur y grŵp buddiant, gwerthfawrogir bod pobl yn rhoi o'u hamser i'w fynychu. Felly, bwriedir y bydd y grŵp buddiant yn dod i ben ar amser. Fodd bynnag, bydd yna gyfle i drafod unrhyw bwyntiau trafod pwysig a holi'r tîm ymgynghori y tu hwnt i'r sesiwn.

18.31 Cyrraedd a Chyflwyniad

Te, coffi a brechdanau wrth gyrraedd i'w ddilyn gan gyflwyniad a fydd yn nodi cwmpas y Grŵp Buddiant ac ailadrodd yr agenda a'r pwyntiau trafod allweddol.

18.51 Cyflwyniadau gan y Tîm Prosiect

Cyflwyniadau ar bynciau o ddiddordeb allweddol:

- ***Diogelwch/Mynediad a'r Ardal Hyfforddi*** - Capt. John Sunderland RN (DTR), Roger Mathews (Scott Brownrigg) a Wg Cdr Richard Read (DE)
- ***Tai*** - Catrin Oliver, White Young Green
- ***Cyflogaeth*** - Tim Bridgman, QinetiQ

19.50 Sesiwn holi ac ateb ar ffurf trafodaeth grŵp

Mae mynychwyr yn rhydd i adael ar yr adeg hon. Bydd yna sesiwn holi ac ateb ar ffurf trafodaeth grŵp i'r rheiny sy'n dymuno aros. Bydd yna dri grŵp trafod, yn cynrychioli pynciau'r cyflwyniadau, a bydd cyfle i fynychwyr holi'r arbenigwyr ynglŷn â'r cyflwyniadau a welwyd.

Gwerthfawrogir na fydd pawb yn clywed yr holl atebion i'r holl gwestiynau, ond mi fydd pob cwestiwn ac ateb yn cael eu cofnodi ac fe fyddan nhw'n cael eu cynnig i fynychwyr ar ôl y digwyddiad.

20.30 Diweddglo

4. GWAITH DILYNOL

Bydd copïau o'r cyflwyniadau ar gael pan wneir cais a gellir eu hanfon at fynychwyr ar ôl y digwyddiad. Bydd cofnod o'r cwestiynau ac atebion o'r sesiwn holi ac ateb hefyd yn cael ei anfon at fynychwyr ar ôl y digwyddiad. Bydd hefyd cyfle i lawrlwytho'r holl ddogfennau o wefan y prosiect (www.st-athanconsultation.co.uk).

-mwy-

Grwpiau Buddiant Sain Tathan

1. Trosolwg

Fel rhan o ymrwymiad y tîm prosiect i gynnwys y cyhoedd yn gyfan gwbl ym mhroses gynllunio ailddatblygiad y Weinyddiaeth Amddiffyn Sain Tathan, bwriedir cynnal dau Grŵp Buddiant a fydd yn caniatáu unigolion i ddarganfod mwy am y themâu allweddol sy'n berthnasol i'r cynllun. Yn ogystal â chreu cyfle i drafod materion cyffredinol, bydd pob Grŵp Buddiant hefyd yn caniatáu'r tîm prosiect i rannu gwybodaeth gyda'r sawl sy'n mynychu a chaffael eu barn a'u sylwadau.

2. Cwmpas a Graddfa

Pennwyd pynciau'r Grwpiau Buddiant yn dilyn y cwestiynau a'r sylwadau a gofnodwyd adeg yr arddangosfeydd cyhoeddus a gynhaliwyd yng Ngorffennaf 2008.

Mae'r Grwpiau Buddiant yn wahanol i'r Gweithdai gan fod eu cylch gwaith yn ehangach a byddant yn cynnwys rhai pynciau, fel cyflogaeth, nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r ffordd y bydd yr uwch gynllun yn edrych.

Dyma gyfle i'r gymuned dderbyn mwy o wybodaeth ynghylch y meysydd pwysig hyn yn ogystal â sgwrsio â'r tîm prosiect. Tra ein bod am gaffael barn a sylwadau, pwyslais pennaf y Grwpiau Buddiant fydd rhannu gwybodaeth.

3. Agenda

Yn unol â'r uchod, seiliwyd fformat y digwyddiad yn bennaf ar gyfres o gyflwyniadau sy'n galluogi'r tîm prosiect i ddarparu mwy o wybodaeth i'r cyhoedd. Neilltuwyd cyfnod yn dilyn y cyflwyniadau ar gyfer sesiwn holi ac ateb ar ffurf trafodaeth grŵp pan fydd cyfle i gyflwyno cwestiynau a sylwadau i'r tîm prosiect.

4. Allbynnau ac Adborth

Bydd copïau o'r cyflwyniadau ar gael pan wneir cais a gellir eu hanfon at fynychwyr ar ôl y digwyddiad. Bydd cofnod o'r cwestiynau ac atebion o'r sesiwn holi ac ateb hefyd yn cael ei anfon at fynychwyr ar ôl y digwyddiad. Bydd hefyd cyfle i lawrlwytho'r holl ddogfennau o wefan y prosiect (www.st-athanconsultation.co.uk).

D.S. Tra bydd cofnod o'r cwestiynau a'r sylwadau a ddaw i law adeg y Grwpiau Buddiant ar gael i'r cyhoedd, ni ddatgelir enwau a manylion yr unigolion a gymerodd rhan, yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

1.5 Cod ymddygiad
Rhagwelwn y bydd y grŵp buddiant yn adeiladol dros ben ac yn agwedd werthfawr iawn o'r broses ymgynghori. Tra anogir dadl adeiladol a bywiog, hoffem ofyn i bawb sy'n mynychu'r grŵp buddiant i ddangos parch tuag at dîm prosiect sain Tathan, a'u cyd-fynychwyr.

1.6 Lluniaeth
Rydym yn gwerthfawrogi bod aelodau'r cyhoedd yn rhoi o'u hamser er mwyn mynychu'r grwpiau buddiant. Gan eu bod nhw'n cychwyn gyda'r nos, sylweddolwn y bydd nifer o'r rheiny sy'n mynychu yn dod yn syth o'r gwaith a heb gael amser i fwyta.

Felly, darperir lluniaeth ymhob grŵp buddiant, a hynny'n cynnwys brechdanau, bisgedi, te/coffi, sudd ffrwythau a dŵr. Darperir hefyd ar gyfer llysieuwyr, ond os oes gennych unrhyw anghenion dietegol ychwanegol, cysylltwch â threfnyddion y grwpiau buddiant ar: 0845 618 0016. Gallwch hefyd yrru e-bost atom ar enquiries@st-athanconsultation.co.uk neu ysgrifennu atom yn Freepost RRKG-AZTG-JLJX, Camargue (St Athan), Eagle Tower, Montpellier Drive, Cheltenham, GL50 1TA

-diwedd-